CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**

Dyddiad y cyfarfod: **22/01/2025**

Teitl: **Adduned Cyflogwr Oed-gyfeillgar**

Pwrpas yr Adroddiad:
Cefnogi Cyngor Sir Ceredigion i ymrwymo i Adduned Cyflogwr Oed-gyfeillar.

Rheswm paham y bu i Graffu ofyn am y wybodaeth: Awgrymwyd gan y Grŵp Arweiniol y dylai'r Pwyllgor Craffu ystyried y cynnig.

Cefndir

Bydd y Pwyllgor Craffu yn ymwybodol bod Ceredigion wedi'i derbyn i Rwydwaith Sefydliadau Iechyd y Byd o Gymunedau a Dinasoedd sy'n Oed-Gyfeillgar ym mis Medi 2024, yn dilyn cyflwyno adroddiad hunanasesu a baratowyd gan y Tîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol. Fel rhan o'r ymrwymiad i arwain o'r blaen ar yr agenda hon, cynigir bod Awdurdod Lleol Ceredigion yn ymrwymo i'r Addewid Cyflogwr Oed-Gyfeillgar.

Mae'r Addewid Cyflogwr Oed-Gyfeillgar yn rhaglen genedlaethol ar gyfer cyflogwyr y DU sy'n cydnabod pwysigrwydd a gwerth gweithwyr hŷn. Mae cyflogwyr yn ymrwymo i wella gwaith i bobl yn eu 50au a 60au a chymryd y camau angenrheidiol i'w helpu i ffynnu mewn gweithlu aml-genhedlaeth.

Mae'r Addewid fel a ganlyn:

Fel Cyflogwr Oed-Gyfeillgar byddwn yn...

1. Clustnodi uwch noddwr ar gyfer cynhwysiant oedran yn ein gweithlu – a datgan yn gyhoeddus ein hymrwymiad i'r adduned
2. Sicrhau bod oedran yn cael ei enwi'n benodol yn ein polisïau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
3. Cymryd camau i wella recriwtio, cadw a datblygu gweithwyr dros 50 oed o un o'r meysydd canlynol:
    - Creu diwylliant oed-gyfeillgar
    - Cyflogi yn bositif o ran oedran
    - Bod yn hyblyg ynghylch gweithio hyblyg
    - Annog datblygiad gyrfa ar gyfer pob oedran
    - Sicrhau bod pawb yn cael y cymorth iechyd sydd ei angen arnynt

Byddwn yn ymrwymo i weithredu mewn o leiaf un maes bob blwyddyn a byddwn yn adrodd yn ôl ar ein gweithgareddau a'n cyflawniadau yn flynyddol.

Y Sefyllfa Gyfredol

Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol sy'n gyfrifol am Bobl a Sefydliadau ac yn y Grŵp Arweiniol; cytunir y bydd mabwysiadu'r adduned yn fuddiol ac na fydd yn golygu gwyro oddi wrth ein harferion presennol sy'n gynhwysol eu natur.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam
Nid oes ei angen
Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor :	Amherthnasol
Cydweithio:	Amherthnasol
Cynnwys:	Amherthnasol
Atal:	Amherthnasol
Integreiddio:	Amherthnasol

Argymhelliad :
Cefnogi'r Awdurdod Lleol i ymrwymo i'r Adduned Cyflogwr sy'n Oed-Gyfeillgar

Rheswm dros yr argymhelliad:
Dangos ymrwymiad Cyngor Sir Ceredigion i wella profiad y gweithwyr hynny dros 50 oed yn y gweithle

Enw Cyswllt: Iwan Davies

Swydd: Rheolwr Corfforaethol Ymyrraeth Gynnar

Dyddiad yr Adroddiad: 03/12/2024

Acronymau: